

Cyfeillion Amgueddfa Cymru
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

Friends of National Museum Wales
Cathays Park, Cardiff CF10 3NP

friends
national
museum
wales
amgueddfa
cymru

YMWELIAD Â'R WEST SOMERSET RAILWAY A DUNSTER

Dydd Mercher 10 Mehefin 2015

- 8.15 Gadael Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Parc Cathays
- 8.30 Codi teithwyr yn Wild Gardens Road, Parc y Rhath
- 10.45 Cyrraedd Bishop Lydeard i fynd ar y West Somerset Railway am 11.05.
- 12.20 Cyrraedd Gorsedd Dunster, lle bydd y bws yn mynd â ni i bentre Dunster a'n gostwng yn High Street.
- 12.30- 4.15 Trefniadau cinio eich hunan. Ar ôl cinio, bydd amser i edrych ar fannau o ddiddordeb ym mhentre Dunster a/neu Castell Dunster a'r Gerddi (Ymddiriedaeth Genedlaethol)

4.15 (**yn brydlon**) Gadael Dunster o'r lle gostwng yn High Street, gan gyrraedd yn ôl yng Ngaerdydd tua 6.30pm.

West Somerset Railway yw'r rheilffordd Treftadaeth lled safonol hiraf ym Mhrydain. Mae'n rhedeg ugain milltir drwy deg orsedd, o Bishop Lydeard ger Taunton i Minehead, trwy gefn gwlad hardd Gwlad yr Haf. Caiff coffi a bisgedi eu gweini ar y trê, yn rhan o gost y daith.

Mae Dunster yn bentref prydferth swynol, gyda llawer o lefydd diddorol i'w gweld, gan gynnwys y Farchnad Edafedd sy'n adeilad crwn hen iawn yn yr Heol Fawr ac eglwys a gerddi Sant George. Yn y pentref mae llawer o siopau gan gynnwys siop lyfrau a siop hen bethau. Mae dewis eang o lefydd i fwyta, yn cynnwys bwyty gwesty'r Lutterell (gwell archebu ymlaen llaw) a nifer o fannau llai costus.

Mae Castell Dunster a'i erddi yn edrych dros y pentref, ac yn werth eu gweld. Cymerodd teulu Lutterell a oedd yn ei berchen rhan amlwg yn y Rhyfel Cartref a daeth yn rhan o'r Ymddiriedaeth Genedlaethol yn 1949. Mae'r gerddi yn eang ac yn llawn llwyni a blodau diddorol. Mae'r daith o'r Heol Fawr i'r Castell yn dringo rhiw serth, tua hanner milltir o hyd. Mae bws gwennol yn rhedeg yn rheolaidd o'r Canolfan Gwybodaeth / Swyddfa Dicedi i'r Castell, ond mae rhiw tua 70 llath i'w ddringo i fynd ato, neu gallech gymryd llwybr ychydig yn hirach ond yn llai serth o West Street.

Cost y diwrnod sy'n cynnwys y bws, taith ar y rheilffordd, coffi a bisgedi ar y tren, a tip y gyrrwr yw £35.00. I ymuno â ni, anfonwch sic, yn daladwy i: 'Cyfeillion Amgueddfa Cymru' a ffurflen wedi'i llenwi at:

Richard Carter, 5 The Close, Llanishen, Caerdydd, CF14 5NG

E-bost: richard.carter@friendsmuseumwales.org.uk; Ffôn: 029 2076 5177; Ffôn symudol: 07921811996.

Os nad ydych wedi cynnwys cyfeiriad e-bost neu os ydych am dderbyn tocyn blaenoriaeth am daith bellach petai ormod o geisiadau wedi'u derbyn am y daith, amgaewch amlen wedi'i chyfeirio atoch chi eich hunan os gwelwch yn dda.

At: Gyfeillion Amgueddfa Cymru

Ymweliad i'r West Somerset Railway a Dunster, Dydd Mercher 10 Mehefin 2015

Enw _____

Cyfeiriad _____

Côd post _____ Ffôn _____ E-bost _____

Cadwch _____ lle ar gyfer y digwyddiad uchod os gwelwch yn dda. Amgaeaf sic am £ _____ (£35.00 y pen)

Byddwn yn cwrdd â'r bws: o flaen Amgueddfa Cymru, Parc Cathays _____ yn Wild Gardens Road, Parc y Rhath _____

Yr wyf/ydym yn cadarnhau aelodaeth o'r Cyfeillion Amgueddfa Cymru _____

